

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithwir o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 27 Medi 2021

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm dydd Mercher, 30 Medi 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 7 Hydref 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 8 Hydref 2021.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R Meirion Jones, Bob Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd K P Hughes, T LI Hughes MBE, Dafydd Roberts.

Ymddiheuriadau: Dim
(10.00am - 11.35am)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol Amherthnasol
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith yn gywir:- <ul style="list-style-type: none"> • 12 Gorffennaf, 2021 • 13 Medi, 2021 (Arbennig)
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Amherthnasol
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Amherthnasol
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol
RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith <i>(Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd)</i>
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddarau am y cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Mai 2022, fel y'i cyflwynwyd.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	I gryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw.
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Na
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Na
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Monitro Perfformiad: Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Chwarter 1 2021/22 <i>(Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151)</i>
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> • derbyn adroddiad monitro'r Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch1 2021/2022, a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad; • enwebu cynrychiolydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i fod yn aelod o'r Grŵp Llywio a sefydlwyd yn ddiweddar, sydd yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a WRAP Cymru, i archwilio materion yn ymwneud ag ailgylchu a gwastraff gwyrdd.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	I nodi meysydd sy'n tanberfformio yn y Cyngor
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Na
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Na
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2022/23 i 2024/25 <i>(Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151)</i>
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- <ul style="list-style-type: none"> • Bod y Cyngor yn rhoi system gadarn ar waith i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r cynllun yn amlinellu strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac mae'n nodi'r rhagdybiaethau fydd yn cael eu cynnwys yn y broses flynyddol o osod y gyllideb;

	<ul style="list-style-type: none"> Nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllidol a nodir yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2022/23, fel y manylir yn Atodiad 1 yr adroddiad
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cyhoeddi datganiad cyn gosod cyllideb yn unol â gofynion y cyfansoddiad
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Na
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Na
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes
RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 1, 2021/22 <i>(Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151)</i>
PENDERFYNIAD	<p>PENDERFYNWYD:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwylidig ar gyfer 2021/22. Mae'r sefyllfa hon yn ddibynnol ar gymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i gyllido'r golled incwm sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol o ganlyniad i'r coronafeirws; Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2021/22 fel y manylir arnynt yn Atodiad C; Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH; Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2021/22 yn Atodiadau D a DD.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad Cyllideb Refeniw 2021/22
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Na
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Na
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1, 2021/22 <i>(Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151)</i>
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2021/22 yn Chwarter 1.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad Cyllideb Gyfalaf 2021/22
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Na
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Na
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes
RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 1, 2021/22 <i>(Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog 151)</i>
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD nodi:- <ul style="list-style-type: none"> • Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 1 2021/22. • Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2021/22.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro perfformiad Cyllideb y CRT ar gyfer 2021/22
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Na
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Na
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes
RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 Diweddariad o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol <i>(Addroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol)</i>
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon gyda chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Monitro cynnydd y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Na
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Na
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes